

## Gwobrau Mudiad Meithrin – Sut i enwebu?

- Nid yw ateb 1 brawddeg fesul rheswm yn ddigonol – bydd yr enwebiad yn debygol iawn o gael ei ddiystyru.
- Ceisiwch roi rhesymau llawn gan roi enghreifftiau penodol i gefnogi'r rheswm
- Ni fyddwn yn dyfarnu ar sail nifer yr enwebiad sydd wedi ein cyrraedd e.e. bydd 1 enwebiad cryf yn well na 10 enwebiad gwan.

	<b>Beth rydym yn chwilio amdano</b>	<b>Peidiwch a cynnwys hyn</b>
<b>Arweinydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwyddo i adeiladu perthnasau gwych gyda'r plant, rhieni a'r gymuned</li> <li>• Rheoli ac yn arwain y tim gyda brwdfrydedd ac mewn ffordd arloesol ac ysgogol</li> <li>• Trawsnewid y cylch mewn cyfnod byr.</li> <li>• O hyd yn chwilio am syniadau newydd arloesol i ddatblygu'r ardaloedd yn y cylch</li> <li>• Ymrwymiad i'r cylch, y tîm a'r gymuned.</li> <li>• Arweinydd hyderus sydd yn modeli ymddygiad a iaith bositif a chadarnhaol</li> <li>• Arweinydd sydd yn gofyn cwestiynau, ymgynghori ac yn rhoi amser i wrando ar staff, plant, rhieni a phartneriaid.</li> <li>• Eirioli dros y cylch ac addysg Gymraeg</li> <li>• Hyrwyddo dilyniant i addysg Gymraeg gydag enghreifftiau o arfer dda</li> <li>• Arweinydd sydd yn monitro ac arsylwi yn gyson ac yn addasu, newid a gwella ble fod angen gan adael i'r plant arwain y gweithgareddau.</li> </ul>	Nid ydym eisiau gwybod eu bod yn ofalgar o'r plant, na bod y plant yn ddiogel ac yn hapus. Mae hyn i'w ddisgwyl fel rhan o'u rôl.
<b>Cynorthwy-ydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi'r arweinydd drwy gynnig syniadau a gweithgareddau arbennig</li> <li>• Cynorthwy-ydd hyderus sydd yn gyfforddus i arwain gweithgaredd tu fewn a thu allan</li> <li>• Ymrwymiad i'r cylch, y tîm a'r gymuned.</li> <li>• Cynorthwydd sydd yn gofyn cwestiynau, ymgynghori ac yn rhoi amser i wrando ar y plant.</li> <li>• Cymryd cyfleoedd i ddatblygu ei hun er lles y cylch.</li> <li>• Cymryd cyfrifoldebau ychwanegol i'r disgwyliadau o ran swydd ddisgrifiad</li> <li>• Rhoi amser gwirfoddol er mwyn cynnig profiadau ychwanegol i'r plant e.e. carnifal ar ddydd Sadwrn</li> </ul>	Nid ydym eisiau gwybod eu bod yn ofalgar o'r plant na bod y plant yn ddiogel ac yn hapus . Mae hyn i'w ddisgwyl fel rhan o'u rôl.

Ni dderbynnir unrhyw enwebiad sy'n nodi'r rhesymau hyn air am air, rhaid nodi enghreifftiau penodol.

<b>Dewin a Doti</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dewin a Doti yn chwarae rôl ganolog mewn annog defnydd iaith o fewn y Cylch Meithrin</li> <li>• Dewin a Doti yn cael eu plethu mewn i weithgareddau dyddiol y Cylch Meithrin e.e. bwrdd emosiynau, ymarfer corff, amser snac.</li> <li>• Defnydd creadigol o Dewin a Doti sydd uwchlaw gweithgareddau dyddiol y Cylch Meithrin</li> <li>• Manteisio ar ddigwyddiadau cenedlaethol i gael defnydd pellach o Dewin a Doti e.e. parti pyjamas, parti pen-blwydd Dewin a Doti</li> <li>• Doti – esiimplau gwych o wreiddioldeb wrth anfon Doti gartref gyda phlentyn</li> <li>• Mae Dewin a Doti yn rhan o weithgareddau'r Cylch Ti a Fi (os oes un ynghlwm a'r Cylch Meithrin)</li> <li>• Mae Ap Dewin a Doti yn cael ei ddefnyddio yn y cylch ac yn cael ei hyrwyddo i rieni'r cylch</li> </ul>	
<b>Chwarae a dysgu Tu allan</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn defnyddio'r Tu allan i fod yn ofod addysgu o safon uchel</li> <li>• Wedi gwneud y defnydd gorau oll o'r Tu allan sy'n hybu datblygiad y plant</li> <li>• Mae cylch yn cynnig profiadau tu allan cyson a chadarnhaol ble gall plant ymlacio, myfyrio a bod yn dawel a redeg a bod yn swnllyd</li> <li>• Cyfleoedd i fynd allan at ardal ble mae'r plant yn ddiogel mewn bob tywydd</li> <li>• Ymarferwyr sydd yn gyfforddus ac hyderus yn y tu allan ac sydd yn caniatâi plant cymryd risg</li> <li>• Defnyddio'r Tu allan ble mae plant yn gallu arsylwi a gwrandao ar natur</li> <li>• Enghreifftiau o greadigrwydd sydd yn ymestyn sgiliau'r plant</li> <li>• Cynnig cyfleoedd unigryw Tu allan drwy ddefnyddio'r ardaloedd cyfagos e.e. coedwig, y parc, y cae</li> <li>• Rhoi cyfleoedd i'r plant dyfu planhigion e.e. blodau, llysiau a ffrwythau</li> <li>• Mae'r defnydd o'r Tu allan yn cynnwys cyfleoedd i ehangu iaith, rhifedd a llythrennedd digidol</li> </ul>	
<b>Cylch Meithrin</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• CM sydd yn hyderus i rannu arferion da ac effeithiol gydag eraill ee ymarferwyr eraill, MM, Academi neu Hwb</li> </ul>	<p>Does dim rheid i gylch Meithrin fod yn Gylch Meithrin mawr sydd yn</p>

Ni dderbynnir unrhyw enwebiad sy'n nodi'r rhesymau hyn air am air, rhaid nodi enghreifftiau penodol.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefnir ymweliadau cyson i mewn i'r cylch a thu allan er mwyn hybu datblygiad y plant</li> <li>• Cydweithio agos iawn gyda'r ysgol Gymraeg leol er mwyn hybu dilyniant a threfniadau pontio arloesol</li> <li>• Cylch yn darparu gwasanaethau ychwanegol yn ôl gofynion rhieni lleol e.e. gofal cofleidiol, cynnig 30 awr</li> <li>• Defnyddio ffyrdd arloesol i gyfathrebu gyda rhieni presennol a marchnata i ddarparu rieni e.e. apiau, cylchlythyron, cyfrifon cymdeithasol, papurau bro</li> <li>• CM sydd yn edrych am gyfleoedd i ddatblygu a gwella ansawdd y darpariaeth trwy hyfforddiant ac ymweliadau at ddarpariaethau eraill</li> <li>• Staff yn mynychu hyfforddiant rheolaidd ar feysydd amrywiol er mwyn cynnig profiadau dysgu ychwanegol yn y cylch</li> <li>• CM sydd yn darparu profiadau cyfoethog i blant</li> <li>• Gwneud gwaith arbennig ym meysydd iaith, rhifedd a llythrennedd digidol</li> <li>• Mae gan y cylch partneriaethau allanol effeithiol amrywiol yn y gymuned</li> <li>• Mae profiadau cyfoethog yng nghyd destun trochi iaith.</li> <li>• Mae'r plant yn dylanwadu ar themau a gweithgaredd y Cylch</li> <li>• Mae'r cylch yn gweithio gyda rhieni i ddatblygu sgiliau'r plant yn y cartref</li> <li>• Mae pawb yn rhoi ymroddiad llawn i'r cylch (staff, teuluoedd, partneriaid, plant, y gymuned)</li> </ul>	<p>cynnig amryw o wasanaethau megis Dechrau'n Deg neu Addysg. Y pwyslais yw Cylch sydd yn cynnig profiadau cyfoethog i blant y Cylch, creadigrwydd ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu a'r berthynas gyda'r gymuned.</p>
<p><b>Cylch Ti a Fi</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y sesiwn yn gynhwysol i'r ardal ac yn gwneud ymdrech i ddenu teuluoedd o wahanol gefndiroedd iddo.</li> <li>• Cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n llwyddo i ddenu teuluoedd newydd a chadw teuluoedd i ddod yn ôl yn wythnosol</li> <li>• Cylch Ti a Fi sydd wedi addasu dros y cyfnod clo i gynnig gwasanaeth rhithiol neu ymgysylltu â teuluoedd mewn modd creadigol o bell.</li> <li>• Ysbryd cymunedol gydag amrywiaeth o genedlaethau yn mynychu</li> <li>• Cynnal prosiectau gyda'r gymuned e.e. cydweithio gyda'r cartrefi hen bobl</li> <li>• Cyfleoedd gwych ac arloesol wrth gyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd</li> <li>• Enghreifftiau o waith gwych i drawsnewid y cylch mewn tymor byr e.e. cynyddu niferoedd, marchnata da</li> <li>• Pontio gyda'r Cylch Meithrin cyfagos ac hyrwyddo dilyniant i'r Cylch Meithrin.</li> <li>• Enghreifftiau arloesol o godi arian</li> </ul>	

Ni dderbynnir unrhyw enwebiad sy'n nodi'r rhesymau hyn air am air, rhaid nodi enghreifftiau penodol.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Enghreifftiau o gyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd mewn partneriaeth e.e Cymraeg i oedolion, Clwb Cwtsh.</li> </ul>	
<b>Cynhwysiant, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y lleoliad yn gwneud gwaith gwych i addasu'r lleoliad er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu cynnwys e.e. creu ardaloedd penodol i helpu plentyn ymdopi</li> <li>• Y cylch yn gwneud defnydd cyson o strategaethau gweledol e.e. makaton, cardiau dewis</li> <li>• Cydweithio'n effeithiol gyda asiantaethau allanol ac ysgolion er budd y plant.</li> <li>• Enghreifftiau o strwythur cynllunio sy'n bodloni ac yn ymateb i anghenion unigol pob plentyn</li> <li>• Mae profiadau dysgu amlddiwylliannol yn y cylch. e.e. Diwali, Blwyddyn Newydd Tsieiniaidd</li> <li>• Staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi penodol e.e. ELKLAN, Asthma.</li> <li>• Enghreifftiau o sut mae'r cylch wedi cynnig cefnogaeth i blentyn/ teulu lle mae'r Saesneg a'r Gymraeg yn ail neu drydedd iaith neu blentyn/teulu o gymuned du neu lleiafrif ethnig</li> <li>• Enghreifftiau o sut mae'r cylch yn croesawu pob plentyn a'i deulu beth bynnag fo'i iaith neu gefndir</li> <li>• Enghreifftiau o sut mae dynion a/neu ryweddau eraill yn cael eu cynnwys ym mywyd pob dydd y cylch e.e o fewn y gweithlu, grwpiau tadau ac ati</li> <li>• Mae'r Cylch Meithrin yn hyrwyddo gwaith aml genedlaethau yn y gymuned</li> <li>• Enghreifftiau sut fydd y cylch yn mynd ati i baratoi gweithgareddau a dod o hyd i adnoddau sy'n darlunio amrywiaeth ac/neu yn ceisio atal datblygiad rhagfarn am grwpiau o bobl</li> <li>• Mae'r cylch yn codi ymwybyddiaeth o hiliaeth ac yn dangos drwy esiampl fod angen gweithredu i atal hiliaeth</li> </ul>	
<b>Gwirfoddolwr</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi chwarae rôl flaenllaw wrth gynorthwyo'r cylch drwy gyfnod o drawsnewid e.e. newid lleoliad, ehangu gwasanaeth yn sylweddol, cofrestrriad gydag Estyn neu AGC</li> <li>• Wedi gorfod delio gyda chyfnodau heriol yn ystod eu cyfnod yn y rôl e.e. difrod i adeilad, newidiadau staff, ail adfer cylch wedi'r cyfnod clo.</li> <li>• Yn arwain y ffordd drwy chwilio am gyllid / grantiau addas i gefnogi gwaith y cylch</li> </ul>	

Ni dderbynnir unrhyw enwebiad sy'n nodi'r rhesymau hyn air am air, rhaid nodi enghreifftiau penodol.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gwneud gwaith arbennig ac ysgogol wrth drefnu digwyddiadau codi arian</li> <li>• Yn cyfrannu tuag at ofal a phrofiadau'r plant yn y cylch e.e cynorthwyo, cyflwyno'r iaith, darllen stori</li> <li>• Yn ymwrymo i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu sgiliau newydd</li> </ul>	
<b>Pwyllgor</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi gorfod delio gydag cyfnodau heriol e.e. difrod i adeilad, newidiadau staff, cynladwyedd a chyfnodau clo.</li> <li>• Pwyllgor sydd yn adnabod cyfloedd i ddatblygu gwasanaethau'r cylch a'u staff.</li> <li>• Perthynas gadarn gryf gyda'r staff a'r pwyllgor ac enghreifftiau o gydweithio fel tîm.</li> <li>• Gwneud gwaith marchnata cyson ac yn meddwl am ffyrdd gwahanol i hysbysebu'r cylch.</li> <li>• Llwyddo i gynnal y cylch drwy gael targed codi arian blynyddol</li> <li>• Pwyllgor yn cwrdd yn aml er mwyn rheoli'r cylch yn gadarn a gweithredu ar y cynlluniau datblygu</li> <li>• Mae ethos datblygiad proffesiynol parhaus yn y cylch</li> <li>• Mae ymroddiad gan bawb i'r cylch, rhieni, staff, partneriaid.</li> <li>• Mae'r pwyllgor yn cymryd pob cyfle i ddatblygu gwasanaeth y cylch e.e y Cynnig Gofal Plant, gofal cofleidiol ac ati.</li> </ul>	
<b>Meithrinfa Ddydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymuned glos gan y feithrinfa ac yn trefnu digwyddiadau cyson i godi arian ac i ddod a'r teuluoedd ynghyd</li> <li>• Adnoddau priodol i holl blant ac ystod oedran y feithrinfa yn yr ystafelloedd ac ardal tu allan.</li> <li>• Defnyddio ffyrdd arloesol i gyfathrebu gyda rhieni presennol a marchnata i ddarparu rieni e.e. apiau, cylchlythyron, cyfrifon cymdeithasol, papurau bro</li> <li>• Trefnir ymweliadau cyson i mewn i'r feithrinfa a thu allan er mwyn hybu datblygiad y plant o bob oedran</li> <li>• Hybu a hyrwyddo dilyniant i addysg Gymraeg</li> <li>• Staff yn mynychu hyfforddiant rheolaidd ar feysydd amrywiol er mwyn cynnig profiadau dysgu ychwanegol yn y feithrinfa e.e. sgiliau syrcau</li> <li>• Gwneud gwaith arbennig ym meysydd iaith, rhifedd a llythrennedd digidol</li> <li>• Mae gan y Feithrinfa bartneriaethau allanol effeithiol amrywiol yn y gymuned</li> <li>• Mae'r feithrinfa'n cynnig profiadau cyfoethog yng nghyd destun trochi iaith.</li> </ul>	

Ni dderbynnir unrhyw enwebiad sy'n nodi'r rhesymau hyn air am air, rhaid nodi enghreifftiau penodol.

- |  |  |  |
|--|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r plant o bob oedran yn dylanwadu ar themau a gweithgaredd y feithrinfa</li><li>• Mae'r Feithrinfa'n gweithio gyda rhieni i ddatblygu sgiliau'r plant.</li><li>• Mae ymroddiad gan bawb i'r feithrinfa (staff, teuluoedd, partneriaid, plant, y gymuned)</li></ul> |  |
|--|--|--|

Ionawr 2021

Ni dderbynnir unrhyw enwebiad sy'n nodi'r rhesymau hyn air am air, rhaid nodi enghreifftiau penodol.